# Dyma Beth Ddwedoch Chi...

## Cyng. Huw David

### Llefarydd ar ran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Rwy' wedi gweithio gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ers sawl blwyddyn ac roeddwn yn arbennig o hapus i gael bod yn rhan o Gynhadledd gyntaf un Cymru ar gyfer Oedolion Awtistig ym mis Ebrill 2019 ym Mae Abertawe. Mae'r adroddiad Blynyddol Atodol ar gyfer 2019/20 yn adlewyrchiad cadarnhaol o waith y tîm ond mae hefyd yn cyfleu gwaith gwerthfawr a helaeth Arweinwyr Awtistiaeth ar draws Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Mae hon wedi bod yn adeg heriol i bob un sy'n byw yng Nghymru, yn enwedig pobl awtistig. Mae trefn arferol bywyd wedi'i datod, amserlenni cadarn wedi'u chwalu a 'normalrwydd' wedi'i ansefydlogi gan bandemig sydd wedi cael effaith arnon ni i gyd.

Rwy'n falch iawn o waith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, sydd wedi addasu i'r newidiadau a'r heriau sy'n wynebu pawb. Mae'r tîm wedi cynhyrchu deunyddiau da iawn ar gyfer pobl awtistig a'u teuluoedd er mwyn eu helpu i ymdopi'n well gyda'r newidiadau.

Mae'r tîm wedi gwneud llawer iawn o'r gwaith hwn mewn partneriaeth â phartneriaid yn y trydydd sector, gyda phobl awtistig a chyda rhanddeiliaid eraill.

Rwy' wrth fy modd gyda'r wefan newydd, AwtistiaethCymru.org. Mae'n symlach, yn fwy deinamig ac yn fwy hygyrch. Cymerodd amser i'r tîm ddod o hyd i'r darparwr cywir i'w cefnogi i ail-lansio'r adnodd pwysig hwn ond roedd yn werth y buddsoddiad o safbwynt amser ac arian.

Mae fy ngwerthfawrogiad i Lywodraeth Cymru am gyllido'r Tîm yn parhau. Mae'r Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yn destun ymgynghori yn y rownd derfynol ar hyn o bryd ac rwy'n edrych ymlaen at weld gwasanaethau sy'n datblygu'n symlach ac yn fwy ymatebol i anghenion pobl awtistig ar draws Cymru unwaith i'r Cod gael ei osod gerbron Senedd Cymru.

Da chi, darllenwch yr adroddiad, gwrandewch ar y clipiau sain, mynnwch olwg ar y data. Mae'n llawn dop gyda gwybodaeth, ac os byddwch am droi eich sylw o'r newyddion, neu neidio i ffwrdd o'r 'box set' diweddaraf ar y teledu, ewch i'r casgliad o Astudiaethau Achos tua diwedd yr adroddiad – mae toreth o enghreifftiau cadarnhaol o'r ffordd mae gwasanaethau ar draws Cymru'n gweithio gyda'i gilydd er budd pobl awtistig a'u teuluoedd.

Rwy'n falch o hyd i gael bod yn Llefarydd dros Iechyd a Gofal Cymdeithas i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac rwy'n falch o hyd o'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a phob un sy'n ei gefnogi.